WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant – **Cyngor Sir Fynwy**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1718A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Fynwy fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Charlotte Owen ac Allison Rees, a hwythau'n cael eu rheoli gan Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiad ac mae'n cydnabod y cynnydd y mae wedi'i wneud yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella a beth yn fwy y mae angen iddo'i wneud i fynd i'r afael â hwy yn llawn.


Adroddiad cryno 4

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella yn yr adroddiad dilynol a gyhoeddwyd gennym yn 2018 7

Atodiadau

Argymhellion: Adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru, 2015 15

Argymhellion statudol: Trefniadau Diogelu Archwilydd Cyffredinol Cymru – Adroddiad lleol ar y cynllun Kerbcraft, 2017 16

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Daeth adroddiad cenedlaethol Archwilydd Cyffredinol Cymru **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru** a gyhoeddwyd yn 2015 i'r casgliad bod trefniadau sicrwydd corfforaethol cynghorau Cymru ar gyfer goruchwylio diogelu plant yn amrywio o ran eu hansawdd.

2 Roedd yr adroddiad cenedlaethol hwn yn tynnu ar waith lleol a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mhob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru yn ystod 2014. Roedd yr adroddiad cenedlaethol yn nodi gwendidau mewn trefniadau diogelu ac fe wnaeth saith argymhelliad cenedlaethol a oedd wedi'u cyfeirio at yr holl gynghorau ledled Cymru.

3 Yn ogystal â'r adroddiad cenedlaethol, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar wahân ar ei chanfyddiadau ym mhob cyngor. Ar gyfer Cyngor Sir Fynwy (y Cyngor) daethom i'r casgliad ym mis Awst 2014 fod y trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer goruchwylio pa un a oedd y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu tuag at blant yn cynnwys rhai gwendidau ac fe wnaethom dri chynnig penodol ar gyfer gwella; caiff y rhain eu nodi yn Atodiad 1.

4 Ym mis Chwefror 2017, fe wnaethom nodi gwendidau pellach yn nhrefniadau diogelu'r Cyngor yn ein hadroddiad **Trefniadau diogelu – cynllun Kerbcraft**. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod plant yn cael eu rhoi mewn perygl oherwydd gwendidau parhaus yn y trefniadau diogelu ar gyfer y cynllun Kerbcraft nad oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â hwy yn ddigonol.

5 Roedd yr adroddiad Kerbcraft yn cynnwys tri argymhelliad statudol a wnaed dan Adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a nodir yn Atodiad 2.

6 Ym mis Ionawr 2018, ar y cyd ag Estyn ac AGC, fe gynhaliom ni adolygiad Awdurdod Cyfan o ddiogelu yn y Cyngor i asesu pa un a oedd gan y Cyngor drefniadau digonol i ddiogelu plant a phan un a oedd yn meddu ar sicrwydd bod y trefniadau hyn yn gweithredu'n effeithiol ar draws pob maes gweithgarwch a'r holl ryngweithiadau gyda phlant. Fe wnaethom archwilio'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion blaenorol a'r cynigion ar gyfer gwella a roddwyd i'r Cyngor mewn perthynas â diogelu ac fe wnaethom ystyried rhai meysydd lle ceir risg uwch, megis dull y Cyngor o ymdrin â phlant sy'n derbyn gofal, a rhai meysydd lle mae gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn rhyngweithio â phlant.

7 Daethom i'r casgliad bod polisi a gweithdrefnau diogelu plant wedi gwella'n ddiweddar, ond roedd diffygion mewn rhai meysydd hollbwysig o ran polisi a gweithrediad. Fe wnaethom bedwar cynnig ar gyfer gwella a chaiff y rhain eu nodi yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn 2018

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| **C1** | Integreiddio diogelu ar draws fframwaith polisi'r Cyngor. Yn benodol:<br>a. creu 'cynllun prosiect' sy'n nodi'r gwaith sylfaenol sydd angen ei gyflawni, a'r graddfeydd amser cysylltiedig er mwyn ymgorffori ymagwedd y Cyngor at integreiddio diogelu plant ac oedolion yn llawn.<br>b. ail-fframio'r gofrestr risg strategol, er mwyn iddi adlewyrchu egwyddorion CAMPUS yn well wrth fesur effaith camau a gymerir i liniaru risgiau a nodir.<br>c. Cryfhau polisi a chanllawiau diogelu yn y meysydd a nodir yn yr adroddiad hwn. Gan gynnwys:<br>– trefniadau a chanllawiau diogelu data yn gysylltiedig â diogelu;<br>– ymwreiddio trefniadau polisi chwythu'r chwiban drwy hyfforddiant a thrwy godi ymwybyddiaeth; ac<br>– adolygu trefniadau trwyddedu tacsis er mwyn cryfhau'r gofynion iechyd a diogelwch. |
| **C2** | Ymwreiddio pob agwedd ar recriwtio'n ddiogel, ymsefydlu a hyfforddi mewn modd cyson.<br>Yn benodol:<br>a. gwella cofnodion hyfforddiant ar ddiogelu i ddangos pam bod unigolyn wedi derbyn lefel hyfforddiant neilltuol, pryd y derbyniwyd yr hyfforddiant a phryd y mae angen ei adolygu.<br>b. sicrhau bod pawb a chanddynt rôl benodol ym maes diogelu yn derbyn hyfforddiant priodol.<br>c. cadarnhau a oes angen gwiriadau DBS a sicrhau bod y gwiriadau hynny'n cael eu cynnal yn unol â'r cyfarwyddyd. |
| **C3** | Sicrhau bod trefniadau rheolaeth yn cael eu gweithredu'n gyson, a gwella'r trefniadau i fonitro perfformiad yn gysylltiedig â diogelu, i gynnwys holl feysydd gweithredu gwasanaethau, er mwyn ymdrin â bylchau mewn atebolrwydd. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi canllawiau clir i reolwyr ar wybodaeth am ddiogelu y dylid ei chynnwys mewn adroddiadau i'r Aelodau. |
| **C4** | Gwella trefniadau comisiynu a chontractio'r Cyngor yn gysylltiedig â diogelu plant drwy gwblhau'r canllawiau ar gomisiynu, contractio a gwirfoddoli o safbwynt diogelu. |

8 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd effeithiol o ran rhoi'r cynigion i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant a nodwyd gennym yn 2018 ar waith.

9 Fe gynhaliom ni'r adolygiad rhwng mis Medi a mis Hydref 2019. Fe gwblhaodd y Cyngor hunanasesiad o'i gynnydd o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn 2018. Darparodd y Cyngor ddogfennau i ategu ei hunanasesiad. Wedyn fe wnaethom gyfweld â swyddogion allweddol a'r aelod arweiniol dros ddiogelu corfforaethol.

10 Nid ydym wedi profi effeithiolrwydd ymarferol trefniadau diogelu'r Cyngor fel rhan o'r adolygiad hwn.

## Yr hyn a ganfuom

11 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A all y Cyngor ddarparu sicrwydd ei fod wedi gwneud cynnydd effeithiol yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad 'Adolygiad Awdurdod Cyfan o Ddiogelu' a gyhoeddwyd ym mis Awst 2018?**

12 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiad ac mae'n cydnabod y cynnydd y mae wedi'i wneud yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella a beth yn fwy y mae angen iddo'i wneud i fynd i'r afael â hwy yn llawn.**

13 Mae Arddangosyn 2 yn nodi ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran rhoi pob cynnig ar gyfer gwella ar waith. Dylai'r Cyngor gynnal y momentwm y mae wedi'i greu i sicrhau bod yr holl gynigion yn cael eu rhoi ar waith yn llawn.

# Asesiad o’r cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella yn yr adroddiad dilynol a gyhoeddwyd gennym yn 2018

## Arddangosyn 2: asesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i’r afael â’r cynigion ar gyfer gwella

Mae’r tabl isod yn nodi ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o ran mynd i’r afael â’r cynigion ar gyfer gwella o’r adroddiad dilynol a gyhoeddwyd gennym yn 2018.

| Cynigion ar gyfer gwella o adroddiad 2018 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| **C1** Integreiddio diogelu ar draws fframwaith polisi’r Cyngor. Yn benodol:<br>a. creu ‘cynllun prosiect’ sy’n nodi’r gwaith sylfaenol sydd angen ei gyflawni, a’r graddfeydd amser cysylltiedig er mwyn ymgorffori ymagwedd y Cyngor at integreiddio diogelu plant ac oedolion yn llawn; | **Crynodeb – C1 c.iii. wedi’i roi ar waith yn rhannol. Pob agwedd arall ar C1 wedi’u rhoi ar waith yn llawn**<br><br>Yn 2018, dywedodd y Cyngor wrthym fod integreiddio agweddau ar ei drefniadau diogelu oedolion a phlant yn ‘waith ar y gweill’. Yn ein hadroddiad fe awgrymon ni y dylai’r Cyngor lunio cynllun prosiect i gefnogi’r gwaith hwn. Ers hynny mae’r Cyngor wedi integreiddio’r cyfrifoldeb rheoli gwasanaethau ar gyfer diogelu Oedolion a Phlant trwy benodi Rheolwr Gwasanaeth Arweiniol â chyfrifoldeb rheolaeth llinell am y ddau wasanaeth a’r Uned Ddiogelu. Dywed y Cyngor fod dod â diogelu oedolion a phlant o fewn cylch gorchwyl yr Uned Ddiogelu gyda throsolwg gan un rheolwr yn ei alluogi i gydgysylltu a datblygu gweithgarwch diogelu yn well ar draws yr awdurdod. Gan bod y gwaith hwn i integreiddio diogelu plant ac oedolion eisoes wedi digwydd, nid oes angen cynllun prosiect mwyach.<br><br>Nid oes unrhyw gynlluniau gan y Cyngor i integreiddio swyddogaethau gweithredu’r timau ond bydd hyn yn cael ei adolygu’n gyson.<br><br>Ar adeg ein gwaith maes, roedd adroddiad ar y Gwasanaeth Diogelu Oedolion a Chymorth Diogelu a oedd i fod i gael ei gyflwyno i’r Cabinet tuag at ddiwedd 2019 yn argymell adnoddau ychwanegol i gryfhau trefniadau diogelu ymhellach. Roedd y rhain yn cynnwys ailstrwythuro Gweinyddiaeth Fusnes yr Uned Ddiogelu a chreu Rheolwr |

| | |
|---|---|
| | Busnes Diogelu. Roedd yr adroddiad eisoes wedi bod gerbron y Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan (GDAC) a Thîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth. |
| b. ail-fframio'r gofrestr risg strategol, er mwyn iddi adlewyrchu egwyddorion CAMPUS yn well wrth fesur effaith camau a gymerir i liniaru risgiau a nodir ; | Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella'i drefniadau rheoli risg, gan gynnwys diweddaru ei Bolisi Rheoli Risg Strategol a chanllawiau cysylltiedig. Mae'r Cyngor wedi diweddaru fformat y gofrestr risg strategol i gynnwys amserlenni a deiliaid cyfrifoldebau ar gyfer pob cam lliniaru a diweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni pob cam gweithredu ac effaith hynny. Fe wnaed y diweddariad sylweddol diweddaraf i'r gofrestr ym mis Ionawr 2019.<br><br>Caiff y Gofrestr Risg Strategol ei goleuo gan Gynlluniau Busnes Gwasanaethau, sy'n cynnwys adran ar drefniadau diogelu gwasanaethau. Er mwyn cryfhau'r ffordd y mae gwasanaethau'n cofnodi ac yn rheoli risgiau yng Nghynlluniau Busnes Gwasanaethau, fe wnaeth y Tîm Polisi a Pherfformiad arfarnu cynlluniau 2018/2021, gan ddarparu adborth lle'r oedd gwelliannau'n ofynnol. Mae proses debyg yn yr arfaeth ar gyfer cynlluniau 2019/2022. Mae'r Cyngor hefyd wedi darparu sesiynau hyfforddi ar gynllunio busnes trwy TalentLab.<br><br>Caiff trefniadau a risgiau diogelu a ddogfennir yng Nghynlluniau Busnes Gwasanaethau eu goleuo, yn eu tro, gan ganlyniad Fframwaith ar gyfer Gwerthuso Archwiliad o Ddiogelu (SAFE) gwasanaethau, sy'n asesu'r modd y maent yn cydymffurfio â Pholisi Diogelu'r Cyngor. |
| c. Cryfhau polisi a chanllawiau diogelu yn y meysydd a nodir yn yr adroddiad hwn. Gan gynnwys :<br><br>i. trefniadau a chanllawiau diogelu data yn gysylltiedig â diogelu ;<br><br>ii. ymwreiddio trefniadau polisi chwythu'r chwiban drwy hyfforddiant a thrwy godi ymwybyddiaeth; ac | Diweddarwyd y Polisi Diogelu Corfforaethol ym mis Tachwedd 2018 ac mae bellach yn cynnwys adran fer ar ddiogelu data sy'n pwysleisio bod amddiffyn plant yn drech nag unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelu data. Fe ymgynghorwyd â swyddog Diogelu Data'r Cyngor ynghylch y trefniadau diogelu data yn y polisi diogelu corfforaethol wedi'i ddiweddaru.<br><br>Fe gyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar wahân ar Chwythu'r Chwiban ym mis Medi 2019. Mae'r adroddiad yn cynnwys adolygiad o hyfforddiant chwythu'r chwiban ac ymwybyddiaeth staff o'r polisi. Canfu ein hadolygiad fod y Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau i wneud staff yn ymwybodol o'r polisi. |

| | |
|---|---|
| iii. adolygu trefniadau trwyddedu tacsis er mwyn cryfhau'r gofynion iechyd a diogelwch . | Fe ddiweddarodd y Cyngor ei Bolisi Tacsi a Hurio Preifat ym mis Mehefin 2018 i ymgorffori argymhellion gan y Sefydliad Trwyddedu ynghylch addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedeion. Mae'r polisi bellach yn cynnwys adran gynhwysfawr ar amddiffyn y cyhoedd i sicrhau bod gyrwyr a gweithredwyr yn 'addas a phriodol'.<br>Mae'r polisi'n nodi bod rhaid i yrwyr tacsi fynychu hyfforddiant diweddaru a chael gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd fel rhan o ofynion adnewyddu trwyddedau. Mae amodau trwyddedau'n ei gwneud yn ofynnol i yrwyr a gweithredwyr hurio preifat hysbysu'r Cyngor ynghylch unrhyw droseddau neu bryderon. Roedd swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n hyderus bod Swyddogion Trwyddedu'n cael eu gwneud yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio â'r gofyniad hwn trwy gudd-ymchwil a gwybodaeth leol gan Wasanaethau Cymdeithasol, Adran Cludiant Teithwyr ac Uned Ddiogelu'r Cyngor a'r Heddlu. Mae Swyddogion Trwyddedu'n gweithio gyda'r Heddlu ar ymgyrchoedd gorfodi ac mae dyletswydd ar yr Heddlu i hysbysu'r Cyngor ynghylch unrhyw faterion 'pryder cyhoeddus' mewn perthynas â gyrwyr tacsis. Gallai'r Cyngor gryfhau'r trefniadau hyn trwy sefydlu proses i fynd ati'n weithredol i wirio cydymffurfio parhaus ag amodau trwyddedau yn ystod cyfnod tair blynedd y drwydded. Byddai hyn yn helpu i ddarparu sicrwydd bod y trefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd, sy'n dibynnu ar eraill i hysbysu'r Cyngor, yn gweithio'n effeithiol. Mae'r Cyngor yn cael sicrwydd mai dim ond i weithredwyr dibynadwy eraill y mae gweithredwyr hurio preifat yn isgontractio bwciadau trwy wiriadau rheolaidd o fanylion bwciadau.<br><br>Mae Bwrdd Rhaglen Cludiant Cyhoeddus y Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn adolygu cludiant teithwyr. Mae'r adolygiad yn cynnwys nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys y gweithlu, hurio preifat, cludo ar fysiau, optimeiddio llwybrau, caffael a systemau monitro meddalwedd. Bydd yr olaf o'r rhain yn helpu i gryfhau trefniadau diogelu ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol trwy ddarparu data byw ar ddefnydd o fysiau gan ddisgyblion. Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd yn mynychu'r Bwrdd fel ymgynghorydd diogelu ac yn cael sicrwydd ynghylch y trefniadau. |
| **C2** Ymwreiddio pob agwedd ar recriwtio'n ddiogel, ymsefydlu a hyfforddi mewn modd cyson . Yn benodol :<br>a. gwella cofnodion hyfforddiant ar ddiogelu i ddangos pam bod unigolyn wedi derbyn lefel hyfforddiant neilltuol, pryd y derbyniwyd yr hyfforddiant a phryd y mae angen ei adolygu ; | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn rhannol**<br><br>Mae'r Cyngor yn adolygu'r systemau sy'n cofnodi hyfforddiant diogelu ar hyn o bryd. Ar adeg ein gwaith maes, roedd gan y Cyngor ddau gofnod canolog i gofnodi hyfforddiant diogelu staff. Mae hyn yn cael ei adolygu gan bod y Cyngor yn cwblhau manyleb gwasanaeth i dendro ar gyfer system cyflogres ac adnoddau dynol newydd. Y bwriad yw y bydd y system newydd yn cofnodi hyfforddiant diogelu staff yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y system hon yn ei alluogi i ateb gofynion y cynnig hwn ar gyfer gwella'n llawn. Y ffrâm amser betrus i'r system hon fod yn weithredol yw Hydref 2020.<br><br>Yn y cyfamser, mae un cofnod hyfforddiant canolog cyfredol – My View – wedi cael ei adolygu. Fe wnaeth pob cyfarwyddiaeth wirio'r system i sicrhau bod yr holl staff cyfredol wedi'u cofnodi yn ogystal â lefel yr hyfforddiant |

| | |
|---|---|
| | diogelu a gafwyd. Y bwriad yw cynnal gwiriad dilysu pellach ymhen chwe mis, cyn rhoi system ganolog newydd ar waith. Bu'r adolygiad o gymorth i ddarparu eglurder ynghylch pa wybodaeth am hyfforddiant y mae angen i'r system ganolog newydd ei chasglu ac fe oleuodd ddatblygiad manyleb gwasanaeth ar gyfer y system cyflogres ac adnoddau dynol newydd.<br><br>Mae adolygiad o'r system ganolog gyfredol ar gyfer cofnodi hyfforddiant diogelu'n rhan o gynllun archwilio'r tîm Archwilio Mewnol ar gyfer 2019-20. |
| b. sicrhau bod pawb a chanddynt rôl benodol ym maes diogelu yn derbyn hyfforddiant priodol; | Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn nodi gofynion hyfforddiant diogelu yn ôl lefel y cyswllt y mae rôl swydd yn ei gael â phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae hyn yn berthnasol i'r gweithlu cyfan, gan gynnwys gwirfoddolwyr, staff asiantaeth a chontractwyr.<br><br>Mae'n ofynnol i'r holl staff gael hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu ac mae'r Cyngor yn darparu hwn trwy ei raglen sefydlu gorfforaethol ar gyfer dechreuwyr newydd. Os yw'n ofynnol i gyflogeion gael hyfforddiant diogelu Lefel 1 a Lefel 2, ceir rhaglen dreigl i staff gofrestru a chael yr hyfforddiant. Caiff hyfforddiant Lefel 3 ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg ei drefnu fel y bo'n ofynnol.<br><br>Rheolwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant cywir ar gyfer eu hanghenion, fel a nodir yn y Polisi Diogelu Corfforaethol, a bod hyfforddiant a geir yn cael ei logio'n ganolog ar y gronfa ddata Resourcelink. Hefyd, mae gan bob Cyfarwyddiaeth sy'n cael cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd Arweinydd Diogelu Cyfarwyddiaeth (ADC) enwebedig. Mae ADC yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithlu o fewn eu Cyfarwyddiaeth yn mynychu hyfforddiant ar bob lefel sy'n briodol i'w rolau a'u swyddogaethau a bod cyfrifoldebau diogelu'n cael eu hamlygu trwy brosesau sefydlu staff, cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio a sesiynau briffio staff.<br><br>Mae'r Cyngor yn cael sicrwydd ynghylch hyfforddiant diogelu trwy gwblhau'r broses SAFE bob chwe mis. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyfarwyddiaeth ddangos bod yr holl staff a gwirfoddolwyr wedi'u hasesu mewn perthynas ag anghenion hyfforddiant diogelu, eu bod yn cael lefel briodol o hyfforddiant diogelu, a bod cofnodion perthnasol yn cael eu cadw.<br><br>Fel a nodwyd uchod, mae'r Cyngor wedi adolygu ei gofnod hyfforddiant canolog a ddelir ar y gronfa ddata Resourcelink i sicrhau bod yr holl staff cyfredol a'r lefel o hyfforddiant diogelu y maent wedi'i chael yn cael eu cofnodi. Mae cofnodion hyfforddiant bellach yn cael eu diweddaru'n ganolog yn dilyn cyflwyno rhestrau |

| | |
|---|---|
| | presenoldeb cyrsiau hyfforddi ac mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn nodi'r broses hon yn glir. Mae gan y Cyngor gam gweithredu parhaus i sicrhau bod cofnodion hyfforddi'n cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn gyson.<br><br>Yn ôl yr hyn a ddywedodd y Cyngor wrthym, er bod y broses arfarnu flynyddol yn adnabod gofynion hyfforddiant diogelu parhaus y gweithlu, bydd yr ymarferoldeb adrodd ychwanegol a gynigir gan system cyflogres ac Adnoddau Dynol newydd yn cryfhau trefniadau ymhellach trwy adnabod bylchau'n rhwyddach. Dylai'r Cyngor sicrhau, wrth iddo gael mwy o eglurder ynghylch bylchau mewn hyfforddiant diogelu, ei fod yn cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r bylchau a gwneud yn siŵr bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant priodol.<br><br>Mae'r holl aelodau Cabinet wedi cael hyfforddiant Lefel 4 mewn Arweinyddiaeth Strategol ar Ddiogelu ac mae aelodau nad ydynt yn rhan o'r Cabinet yn cael hyfforddiant Lefel 1. Mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi cael hyfforddiant diogelu lefel 1 hefyd. Er nad yw hynny wedi'i gadarnhau eto, mae'r tîm Archwilio Mewnol yn debygol o adolygu hyfforddiant diogelu tuag at ddiwedd 2019-20.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd wrthi ar hyn o bryd yn gweithio tuag at recriwtio ei holl wirfoddolwyr trwy'r system reoli ddigidol Volunteer Kinetic, cofnod canolog o wybodaeth a gweithgarwch recriwtio diogel ar gyfer gwirfoddolwyr. Mae'r system yn sicrhau bod gwiriadau recriwtio diogel, sy'n gymesur i'r rôl, yn cael eu cyflawni a'u logio ar broffil y gwirfoddolwr. Mae hyfforddiant diogelu'n cael ei logio ar y system hefyd. |
| c. cadarnhau a oes angen gwiriadau DBS a sicrhau bod y gwiriadau hynny'n cael eu cynnal yn unol â'r cyfarwyddyd . | Cyflwynwyd cyfleuster prosesu electronig ar gyfer gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ym mis Awst 2018. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl swyddi'n cael eu gwirio'n gyson yn erbyn canllawiau'r Swyddfa Gartref i bennu a yw'n ofynnol cael gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br><br>Mae Polisi'r Cyngor ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn nodi beth sy'n gyfystyr â gweithgaredd a reoleiddir ac yn cyfeirio rheolwyr at offeryn canllaw cymhwystra'r Swyddfa Gartref i bennu pa lefel o wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n ofynnol ar gyfer gweithgaredd neu rôl. Hefyd, mae'n ofynnol i bawb sy'n gwirio manylion adnabod gael hyfforddiant un awr gorfodol ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n ymdrin â chymhwystra ac yn cyfeirio cyfranogwyr at offeryn y Swyddfa Gartref a thudalen y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar fewnrwyd y Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Darperir y platfform electronig i brosesu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan Gyngor Sir Powys sy'n rhedeg uned y Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd ac yn darparu cyngor ynghylch cymhwystra i gael gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer CSF os oes angen. |
| **C3** | Sicrhau bod trefniadau rheolaeth yn cael eu gweithredu'n gyson, a gwella'r trefniadau i fonitro perfformiad yn gysylltiedig â diogelu, i gynnwys holl feysydd gweithredu gwasanaethau, er mwyn ymdrin â bylchau mewn atebolrwydd. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi canllawiau clir i reolwyr ar wybodaeth am ddiogelu y dylid ei chynnwys mewn adroddiadau i'r Aelodau. | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn rhannol**<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn bod ei archwiliadau a'i gynlluniau gweithredu SAFE yn allweddol i fesur i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol ac i sicrhau cysondeb. Mae'r Uned Ddiogelu'n adolygu'r hunanasesiadau SAFE, gan roi cymorth ac arweiniad pan fo angen, ac mae'r Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan yn monitro perfformiad yn erbyn y cynlluniau gweithredu SAFE.<br><br>Gan ddechrau ym mis Medi 2019, mae'r Cyngor yn sefydlu cyfres o weithdai gyda'r Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan i herio cyfarwyddiaethau ynghylch eu harchwiliadau SAFE a pha un a yw diogelu'n ymsefydlu ar draws y sefydliad. Nod y gweithdai yw gosod diogelu yn ei gyd-destun trwy ddefnyddio astudiaethau achos o ddiogelu ar waith i helpu i wreiddio gwersi pellach yn y gyfarwyddiaeth a, lle y bo'n briodol, ar draws y cyngor.<br><br>Caiff rôl y tîm Archwilio Mewnol mewn perthynas â diogelu plant ei nodi yn y Polisi Diogelu Corfforaethol. Roedd y tîm Archwilio Mewnol yn bwriadu cynnal adolygiad o ddiogelu yn 2018-19; fodd bynnag, ni chafodd yr adolygiad hwn ei gwmpasu oherwydd newid yn y Prif Swyddog. Mae adolygiad o Ddiogelu yng nghynllun archwilio'r tîm Archwilio Mewnol ar gyfer 2019-20. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y tîm Archwilio Mewnol yn trefnu cyfarfod gyda rheolwr y Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd a'r Prif Swyddog i gwmpasu'r gwaith hwn. Mae'r tîm Archwilio Mewnol yn bwriadu cynnal yr adolygiad tuag at ddiwedd Ch3/yn gynnar yn Ch4 a bydd y dull yn rhoi sylw i'r Cyngor cyfan gyda ffocws posibl ar hyfforddiant diogelu.<br><br>Fe wnaeth adolygiadau diweddar gan y tîm Archwilio Mewnol o weithwyr asiantaeth a gwirfoddoli roi sicrwydd cyfyngedig a sicrwydd rhesymol yn y drefn honno. Canfu'r adolygiad o weithwyr asiantaeth anghysonderau o ran cael sicrwydd boddhaol neu wiriadau ar hap bod hyn wedi cael ei wneud. Nododd fod dibyniaeth yn cael ei rhoi bron yn llwyr ar yr asiantaeth am gyflawni gwiriadau recriwtio diogel. Fodd bynnag, digwyddodd y gwaith maes rhwng mis Mai a mis Awst 2018 ac roedd yn seiliedig ar sampl o 20 o weithwyr asiantaeth a ddefnyddiwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi gweithredu ei broses archwilio SAFE ar draws y Cyngor, a all fod wedi helpu i gryfhau trefniadau. Bydd adolygiad dilynol o weithwyr asiantaeth, sydd i fod i gael ei gwblhau yn 2020-21, yn darparu sicrwydd ynghylch hyn. Fe wnaethom nodi bod yr adroddiad ar weithwyr asiantaeth wedi cael ei gyhoeddi ar ffurf drafft ym mis Ionawr 2019, ond ar adeg ein gwaith maes, nid oedd yr adroddiad wedi cael ei glirio a'i gytuno'n derfynol eto. O ganlyniad, nid oedd ymateb gan reolwyr a oedd yn |

| | |
|---|---|
| | dangos sut yr oedd y Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Dylai'r Cyngor sicrhau yr ymdrinnir yn brydlon ag adroddiadau archwilio mewnol drafft fel y gellir rhoi sicrwydd a chymryd camau cywirol i ymateb i'r materion a godwyd.<br><br>Nid yw'r Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan yn cael adroddiadau Archwilio Mewnol â materion diogelu fel rhan o'r drefn arferol. Bydd y rheolwr Archwilio Mewnol yn mynychu'r Grŵp yn ôl yr angen. Awgrymodd swyddogion y byddai cysylltiadau agosach rhwng y tîm Archwilio Mewnol a'r Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan o fudd ond mae adnoddau a chapasiti staff o fewn y tîm Archwilio Mewnol yn cyfyngu ar hyn.<br><br>Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn nodi y bydd y Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan yn darparu adroddiad blynyddol ar gyfer yr UDA, y Cabinet a'r Swyddogaeth Graffu. Mae'r grŵp yn cynhyrchu Adroddiad Gwerthuso Diogelu ar gyfer Diogelu i ateb y gofyniad hwn. Cafodd yr adroddiad diweddaraf ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu ym mis Tachwedd 2019 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Rhagfyr. Mae'r adroddiad yn asesu cynnydd y Cyngor yn erbyn y blaenoriaethau yn y Polisi Diogelu Corfforaethol:<br>• Llywodraethu da<br>• Gweithlu diogel<br>• Dull ataliol<br>• Amddiffyn cadarn<br>• Gwasanaethau diogel<br>Ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau hyn, mae'r adroddiad yn nodi sut y mae da yn edrych, yn crynhoi'r cynnydd yn ystod y flwyddyn ac yn nodi camau gwella i'w cyflawni, a gaiff eu crynhoi mewn cynllun gweithredu atodedig. Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, mae'r Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan yn rhoi sgôr i effeithiolrwydd trefniadau cyfredol. Darperir sgoriau'r blynyddoedd blaenorol hefyd i'w gwneud yn bosibl cymharu. Mae fformat yr adroddiad wedi cael ei symleiddio ac fe gyflwynir gwybodaeth mewn ffordd glir a hawdd i'w deall. Fodd bynnag, heblaw am y sgôr ar y cyfan, ychydig o ddata cymharol ansoddol sydd ar gyfer blynyddoedd blaenorol y gellir ei ddefnyddio i asesu'r cynnydd yn y flwyddyn gyfredol yn ei erbyn ac nid oes unrhyw ddata cymharol o gynghorau eraill. Hefyd, mae'r adroddiad yn darparu crynodeb lefel uchel ac felly nid yw'n cynnwys manylion ar lefel cyfarwyddiaethau i aelodau graffu arnynt neu gael sicrwydd ohonynt. Dylai'r Cyngor barhau i ddefnyddio adborth gan aelodau i fireinio'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn adroddiadau diogelu.<br><br>Mae Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a gyflwynir i'r Cyngor llawn a'r Cyd-bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc/Oedolion yn cynnwys adran benodol ar Ddiogelu. Mae Pwyllgor Archwilio'r |

| | |
|---|---|
| | Cyngor hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd gyda chamau gweithredu sy'n codi o argymhellion archwilio allanol, gan gynnwys adroddiadau diogelu blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru.<br><br>Mae'r holl adroddiadau i aelodau'n cynnwys adran ar Gydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cynnwys diogelu, ac mae canllawiau ar gael ynghylch cwblhau'r adran hon. Yn wreiddiol roedd y Cyngor yn bwriadu ategu'r templed adroddiad diweddaredig â hyfforddiant penodol ar ysgrifennu'r adroddiadau ond nid yw wedi gwneud hynny eto. Yn lle hynny, mae wedi canolbwyntio ar hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio mewnrwyd y Cyngor a hyfforddiant presennol ar y rhaglen sefydlu rheolwyr. Mae'r Cyngor yn bwriadu parhau i godi ymwybyddiaeth mewn perthynas ag ysgrifennu adroddiadau a darparu hyfforddiant pellach.<br><br>Mae disgwyl i rôl newydd arfaethedig y Rheolwr Busnes Diogelu yn yr Uned Ddiogelu, a grybwyllwyd uchod yn C1, helpu i gryfhau trefniadau rheoli perfformiad ac adrodd. Rhagwelir y bydd y rôl yn cefnogi'r Uned trwy ddatblygu fframwaith sicrhau ansawdd ac offer tracio gwaith, coladu gwybodaeth, cefnogi'r archwiliadau SAFE, a hwyluso'r broses o gynhyrchu adroddiadau a data craidd. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y Cyfarwyddwr a'r Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan wybodaeth glir i fesur cynnydd, deilliannau ac effaith. |
| **C4** Gwella trefniadau comisiynu a chontractio'r Cyngor yn gysylltiedig â diogelu plant drwy gwblhau'r canllawiau ar gomisiynu, contractio a gwirfoddoli o safbwynt diogelu. | **Crynodeb – Wedi'i roi ar waith yn rhannol**<br><br>Mae'r Cyngor wedi datblygu safonau gofynnol ar gyfer diogelu ar draws gwasanaethau a gomisiynir, partneriaethau a gwirfoddolwyr a fframwaith hunanasesu i'r holl gyfarwyddiaethau ei gwblhau. Gofal Cymdeithasol ac Iechyd oedd y maes gwasanaeth cyntaf i gwblhau'r hunanasesiad. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor ar ei hôl hi gyda'r gwaith o gyflwyno hyn i gyfarwyddiaethau eraill ond roedd yn bwriadu gwneud hynny mewn gweithdai a oedd yn yr arfaeth o fis Medi 2019 ymlaen ac ymgorffori hyn yn y broses Archwilio SAFE. Fel rhan o'u paratoadau ar gyfer y gweithdai, mae pob cyfarwyddiaeth yn cynnal asesiad trosolwg gyda'r fframwaith i adnabod unrhyw feysydd lle ceir risg uchel a chamau gweithredu angenrheidiol. Bydd adroddiad ar berfformiad o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan.<br><br>Mae dogfen safonau gofynnol y Cyngor yn cynnwys matrics i asesu lefel risg gweithgarwch gwasanaeth mewn perthynas â diogelu a phennu lefel y trefniadau diogelu sy'n ofynnol. Mae hefyd yn nodi 10 safon ddiogelu ofynnol ar gyfer gweithio gyda gwasanaethau a gomisiynir, partneriaid a gwirfoddolwyr. |

# Atodiad 1

## Argymhellion: Adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru, 2015

Arddangosyn 3: cynigion lleol ar gyfer gwella i Gyngor Sir Fynwy o Adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2015 o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | Adolygu'r Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant i sicrhau ei fod yn cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor yn ddigonol. |
| **C2** | Sicrhau bod datblygiad yr Uned Diogelu a Sicrhau Ansawdd yn ei galluogi i gyflawni ei hamcanion arfaethedig. |
| **C3** | Gwella ystod, ansawdd a chwmpas adroddiadau ar berfformiad diogelu i ddarparu sicrwydd digonol bod systemau'n gweithio'n effeithiol. |

# Atodiad 2

## Argymhellion statudol: Adroddiad lleol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Drefniadau Diogelu – y cynllun Kerbcraft, 2017

Arddangosyn 4: argymhellion statudol

| Argymhellion | |
|---|---|
| **C1** | Dylai’r Cyngor gadw cofnodion cyflawn mewn perthynas â gwirfoddolwyr, gan gynnwys tystiolaeth o wiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, holiaduron iechyd galwedigaethol, hyfforddiant diogelu, a manylion geirdaon. |
| **C2** | Dylai’r Cyngor ddatblygu canllawiau a gweithdrefnau mewnol penodol ar gyfer gweithrediad ei gynllun Kerbcraft fel bod staff yn glir sut y dylai’r cynllun weithredu. |
| **C3** | Dylai’r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli perfformiad a chraffu effeithiol ar gyfer y cynllun Kerbcraft, ac egluro rolau’r Uned Diogelu a Sicrhau Ansawdd a’r tîm Archwilio Mewnol yn y trefniadau hynny. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru